# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 07.04.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Huw Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Sian Gwenllian, Brian Jones, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams,

**Hefyd yn Bresennol:** Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. **CROESO**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. **YMDDIHEURIADAU**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dyfed Edwards a Liz Saville Roberts

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Dim i'w nodi

4. **MATERION BRYS**

   Cytunodd y Cadeirydd, dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys gwybodaeth am drefniadau penodi Pennaeth Addysg. Yn dilyn cais y Pennaeth Addysg am ymddeoliad cynnar gosodwyd amserlen cyfarfodydd penodi olynydd:

   | | |
   |---|---|
   | Mai 6ed 2014 | tynnu rhestr fer |
   | Mai 22ain 2014 | cynnal cyfweliadau |

5. **COFNODION**
   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26ain o Chwefror 2014 a 12fed o Fawrth 2014 fel rhai cywir.

6. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny**

**hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 7. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PRIF WEITHREDWR

Adroddodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol y derbyniwyd tri chais am y swydd.

**PENDERFYNWYD**
**Rhoddi dau ymgeisydd ar y rhestr fer.**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyfweliadau i'w cynnal bore Ebrill 29ain 2014. Gwnaed cynnig i gynnal y cyfweliadau yn y prynhawn fel nad oedd terfyn amser penodol.

**PENDERFYNWYD**
**Cynnal cyfweliadau Ebrill 29ain – 2pm, Siambr Hywel Dda gyda chais i'r Cabinet gyfarfod yn y bore.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3.00pm